***Statws** This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2008 No. 1976

## Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008

## RHAN VI

### ANSAWDD GWASANAETH A DDARPERIR

**Ansawdd y driniaeth**

**14.**—(1) Rhaid i'r person cofrestredig sicrhau bod gwasanaethau deintyddol a ddarperir i bob claf —

(a) yn diwallu anghenion unigol y claf;

(b) yn adlewyrchu tystiolaeth ymchwil a gyhoeddwyd a chanllawiau a ddyroddwyd gan gyrff proffesiynol ac arbenigol priodol;

(c) yn cael eu darparu (pan fo angen) drwy gyfrwng cyfarpar priodol;

(ch) yn cael eu darparu mewn amgylchedd sy'n hybu lles y claf ac a luniwyd i ddarparu triniaeth yn effeithiol ac yn ddiogel.

(2) Rhaid i'r person cofrestredig sicrhau bod arferion gwaith yn cymryd i ystyriaeth sicrwydd ansawdd, gwella ansawdd a diogelwch y claf.

(3) Rhaid i'r person cofrestredig sicrhau bod pob cyfarpar a ddefnyddir wrth ddarparu gwasanaethau deintyddol—

(a) yn addas at y dibenion y caiff ei ddefnyddio; a

(b) yn cael ei gynnal a'i gadw mewn cyflwr da sy'n gweithio.

(4) Os defnyddir dyfeisiau amldro wrth ddarparu gwasanaethau deintyddol rhaid i'r person cofrestredig sicrhau bod gweithdrefnau priodol yn cael eu rhoi ar waith o ran glanhau, diheintio, arolygu, pecynnu, sterileiddio, cludo a storio dyfeisiau o'r fath.

(5) Rhaid i'r gweithdrefnau a weithredir yn unol â pharagraff (4) fod yn y fath fodd sy'n sicrhau bod dyfeisiau amldro yn cael eu trafod yn ddiogel ac yn cael eu diheintio'n effeithiol cyn eu hailddefnyddio.

(6) Rhaid i'r person cofrestredig wneud trefniadau addas i leiafu'r risg o haint a lledu haint.